CYD-LYNUDD PARTNERIAETH CYMUNED BANGOR

Mae Heddlu Trafnidiaeth Cymru, Ardal y Gorllewin a Rhingyll Andy Hemmings (Swyddog sydd mewn gofalaeth ym Mangor) yn falch o gyhoeddi fod swydd newydd, sef Cyd-luydd Partneriaeth Cymunedol ar gyfer Gogledd a Chanolbarth Cymru wedi cael ei greu ym Mangor er mwyn buddiant y gymuned rheilffordd.

Mae'r swydd yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac wedi cael ei roi i Bill Rogerson, MBE, 54 a oedd yn swyddog mewn gofalaeth ym Mangor nes ymddeoli 4 mlynedd yn ôl, ar ôl bod yn wasanaeth yr heddlu am 30 mlynedd. Ail ddechreuodd Bill gyda Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn Hydref 2005

Swydd Bill yw hyrwyddo perthynas dda rhwng y cyhoedd, rheilffyrdd a phartneriaethau trosedd ac anrhefn wrth ddarparu rhaglen addysg a fydd yn datblygu parch at y gyfraith, lleihau troseddau gan wyro troseddwyr potensial i ffwrdd o dresbasu, fandaleiddio ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar rwydwaith y rheilffyrdd.

Dwedai Bill mai 'Nod Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yw cadw ein rheilffyrdd yn fwy diogel ac yn rhydd o unrhyw aflonyddwch yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru, byddaf allan ag o amgylch y gymuned yn helpu i gyflawni hyn'.

Mae Bill wedi bod yn egniol iawn yn yr ardal gan ddilyn rhaglen o leihau troseddau drwy addysg. Mae hyn wedi golygu ymweld â grwpiau cymunedol megis timau troseddau ieuenctid lleol yn ogystal ag ysgolion lleol. Mae Bill wedi rhoi mewnbwn i ddigwyddiadau Criw Craidd ar ddiogelwch rheilffyrdd a chanlyniadau ymddygiad gwrth cymdeithasol. Mae'n helpu hefyd i hybu Trenau Arriva Cymru 'Adopt a Station Scheme'.

Os oes ganoch ddiddordeb mewn helpu i leihau troseddau ar y rheilffyrdd neu os hoffech siarad am swyddogaeth HTP, yna cysylltwch â Bill Rogerson ar 01248 355087, 07920 508505 neu William.Rogerson@btp.pnn.police.uk